

Fairwater: Plas-Mawr Road – Gwaredu Culhau â Blaenoriaeth

Description of Scheme Proposal

Mae'r Cyngor yn hysbysu preswylwyr ynghylch ei gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Plas-Mawr Road.

Mae nodwedd culhau â blaenoriaeth ar Plas-Mawr Road ger ei chyffordd â Poplar Road; mae hyn yn lleihau llif traffig i'r ddau gyfeiriad i lawr i un rhes. Cynigir tynnu'r nodwedd hon a'i disodli â chroesfan sebra ddirchafedig allan i'r ffordd. Gall rhwystrau culhau'r ffordd amharu ar lif traffig, cythruddo gyrwyr, ac achosi oedi i deithiau bws. Bydd eu gwaredu'n gwella dibynadwyedd amseroedd bysus drwy eu helpu i symud.

Bydd y mesurau arafu traffig hyn yn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr yn yr ardal ond hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Plas-Mawr Road sy'n creu priffordd fwy diogel i bawb sy'n ei defnyddio.

Ariennir y cynllun drwy gyllid Trafnidiaeth Leol (Blaenoriaeth i Fysus) Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o leihau amseroedd teithio trafndiaeth gyhoeddus.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anofonwch e-bost aton ni cyn 23/08/2019 at ProsiectauTrafndiaeth@caerdydd.gov.uk.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros groesfan pâl. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â rhwystrau ymwithiol sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. Croesfan sebra sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar gyffordd fwrdd, yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.


Porth Cul Blaenoriaethol. Mesur arafu traffig gyda rhwystrau ymwithiol yn culhau'r ffordd fel mai ond un cerbyd ar y tro all deithio drwy'r porth. Ym mhob cynllun newydd i gulhau ffyrdd, rhoddir blaenoriaeth i geir sy'n teithio o un cyfeiriad. Gallant hefyd gynorthwyo cerddwyr i groesi'r ffordd oherwydd bod y ffordd yn gulach a bod gwell gwelededd. Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan fo nifer tebyg o gerbydau yn defnyddio'r ffordd i'r ddau gyfeiriad, gyda 10 i 20 o gerbydau y funud yn ystod yr awr frig.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhwch wybod i ni erbyn **23/08/2019**.



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/08/2019**